Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

**Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar:**

**Plas Dwbl**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 11/03/2014**

## Cyd-destun

Fferm mynydd can erw ar droed Mynyddoedd y Preseli yn Sir Benfro yw Coleg Fferm Plas Dwbl. Mae’r tir yn cynnwys tir pori, coetir a gerddi helaeth ar gyfer garddwriaeth. Mae gan y coleg ystod o dda byw, mewn niferoedd bach, y mae’r myfyrwyr yn gofalu amdanynt. Caiff llawer o’r llysiau sy’n cael eu tyfu yn y coleg eu defnyddio yng nghegin y coleg a chaiff y stoc sydd dros ben ei gwerthu mewn siop leol.

Mae’r coleg yn darparu cyfleoedd hyfforddiant ar y tir mewn amaethyddiaeth biodynamig a garddwriaeth. Mae’r cwricwlwm yn cwmpasu ystod eang o weithgareddau ymarferol a chrefftau mewn gweithdai penodol, yn yr efail, yng nghegin y fferm ac ar y tir.

Mae’r coleg yn darparu ar gyfer hyd at 25 o fyfyrwyr preswyl neu ddydd sydd ag ystod o anawsterau dysgu, gan gynnwys anhwylderau ar y sbectrwm awtistig ac anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd.

Mae pennaeth y coleg yn gyfrifol am addysg ym Mhlas Dwbl a Ruskin Mill, fel ei gilydd. Caiff y myfyrwyr eu lletya’n lleol mewn tai sy’n cael eu rheoli gan Ymddiriedolaeth Ruskin Mill, ac maent yn mynychu’r coleg yn ddyddiol.

Mae’r Ymddiriedolaeth wedi gwella ac adnewyddu nifer o adeiladau’r fferm ac mae cynlluniau ar waith i barhau â’r gwaith adnewyddu dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Yn ddiweddar, mae’r Ymddiriedolaeth wedi cofrestru ag AGGCC ar gyfer elfen ofal y ddarpariaeth.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

**Mae cryfderau’r coleg fel a ganlyn:**

- caiff dysgwyr gyfleoedd da i gael profiad o ystod eang o grefftau traddodiadol ac ennill medrau a gwybodaeth mewn amaethyddiaeth biodynamig a garddwriaeth;
- mae llawer o ddysgwyr yn cyflawni cymwysterau sy’n berthnasol i’r medrau y maent yn eu datblygu mewn gweithdai a thrwy weithio ar y tir;
- mae dysgwyr yn teimlo’n ddiogel iawn ac maent yn cael cymorth da yn y coleg;
- mae dysgwyr yn datblygu agweddau cadarnhaol tuag at waith a chyflogaeth;
- mae’r coleg wedi cynnal ymarfer defnyddiol i nodi ble y mae modd datblygu medrau llythrennedd a rhifedd mewn cyd-destunau galwedigaethol; ac
- mae adroddiad hunanarfarnu’r coleg yn arfarnol ac mae’r cynllun gwella ansawdd yn gosod targedau clir ar gyfer gwella.

## Meysydd i'w datblygu

**Dyma feysydd y coleg i'w datblygu:**

- mae polisi diogelu'r coleg yn bolisi generig ar gyfer Ymddiriedolaeth Ruskin Mill ac nid yw'n ddigon penodol i Blas Dwbl. Nid yw'n darparu proses glir i staff na manylion cyswllt i roi gwybod am faterion ar y safle hwn;
- nid yw targedau ar gynlluniau dysgu unigol yn ddigon byr na phenodol i'w mesur yn hawdd. Nid ydynt yn galluogi tiwtoriaid a dysgwyr i olrhain cynnydd mewn camau dysgu bach;
- nid yw cynlluniau gwersi, ar draws pob pwnc, yn canolbwyntio'n ddigon da ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr unigol yn systematig er mwyn sicrhau dilyniant priodol; ac
- mae cysylltiadau â darparwyr eraill yn gwella, er ei bod yn rhy gynnar i weld effaith y mentrau newydd hyn ar ddeilliannau i ddysgwyr.

## Argymhellion

**A1** Diwygio'r polisi diogelu i gynnwys gwybodaeth adrodd a gweithdrefnau priodol ar gyfer Plas Dwbl

**A2** Defnyddio gwybodaeth o'r asesiad cychwynnol i osod targedau llythrennedd a rhifedd byr sy'n galluogi dysgwyr i symud ymlaen yn unigol mewn camau dysgu bach

**A3** Sicrhau y caiff pob gwers ei chynllunio'n ddigon da i asesu cynnydd a chyflawniad dysgwyr

**A4** Mesur effaith gwaith partneriaeth ar gyflawniadau a deilliannau i ddysgwyr

## Cynnydd o ran mynd i'r afael â'r argymhellion o'r nodyn o ymweliad neu'r adroddiad arolygu blaenorol

**Argymhelliad 1:** Defnyddio data i lywio gwelliant o ran codi safonau disgyblion

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae pob myfyriwr yn y coleg yn ymgymryd ag asesiad cychwynnol o'u medrau ar ddechrau eu dysgu. Mae'r coleg wedi penodi tiwtor llythrennedd a rhifedd ac wedi cynnal ymarfer defnyddiol i nodi cyfleoedd dysgu llythrennedd a rhifedd mewn pynciau galwedigaethol. Fodd bynnag, nid yw gwybodaeth o'r asesiad cychwynnol yn cael ei defnyddio'n ddigon da i gynllunio datblygu medrau dysgwyr yn unigol ac ar draws pob pwnc.

Mae'r coleg yn cofnodi gwybodaeth am gyflawniad dysgwyr yn briodol.

**Argymhelliad 2:** Sicrhau bod yr holl staff yn canolbwyntio ar ddatblygu llythrennedd a rhifedd, a chynllunio'r gwaith yn ofalus i alluogi dilyniant

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r tiwtor llythrennedd a rhifedd yn cefnogi dysgwyr newydd yn dda, mewn ychydig o sesiynau, trwy weithio ochr yn ochr â'r tiwtor galwedigaethol. Mae dysgwyr eraill yn cael cyfleoedd defnyddiol i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd un-i-un mewn dosbarthiadau medrau arwahanol. Fodd bynnag, nid yw staff yn cynllunio sesiynau'n ddigon da i gynnwys targedau penodol ar gyfer medrau llythrennedd a rhifedd sy'n berthnasol i'r dysgwr ac yn adlewyrchu canfyddiadau'r asesiad cychwynnol. Nid yw cynllunio yn galluogi dysgwyr i ddatblygu medrau dros amser.

**Argymhelliad 3:** Cyflwyno rhaglen ffurfiol o addysg rhyw a pherthnasoedd sydd â phwyslais ar ddiogelwch myfyrwyr

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r coleg wedi cyflwyno cymhwyster Asdan er mwyn darparu rhaglen gynlluniedig o addysg rhyw a pherthnasoedd. Mae staff yn cyfoethogi'r rhaglen trwy roi cymorth penodol i ddysgwyr unigol, yn ôl yr angen.

**Argymhelliad 4:** Parhau i gydweithio â phartneriaid eraill yn y gymuned leol ac yng Nghymru

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r coleg wedi nodi nifer fach o bartneriaid newydd i gyflwyno medrau crefftau. Mae'r rhain yn ymestyn y cyfleoedd sydd ar gael i ddysgwyr yn effeithiol. Mae'r coleg wedi cynnal ymweliadau cyfnewid staff â choleg arbenigol annibynnol arall yn ystod diwrnodau hyfforddi staff i rannu arfer orau. Mae cynlluniau addas i wella cysylltiadau â choleg addysg bellach lleol. Fodd bynnag, dim ond megis dechrau cael eu datblygu y mae'r rhain, ac mae'n rhy gynnar i weld yr effaith ar ddeilliannau a chyflawniad dysgwyr.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Coleg** | Coleg Fferm Plas Dwbl |
| **Rhif y coleg** | F0006004 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 7 ac 8 Ionawr 2014 |
| **Perchennog** | Ymddiriedolaeth Ruskin Mill |
| **Staff** | Tiwtoriaid: 8 (gan gynnwys rhai rhan-amser)<br>Cynorthwyydd tiwtoriaid: 1<br>Staff gofal a chymorth: 16 preswyl, 7 dydd (gan gynnwys rhai rhan-amser)<br>Rheolwyr a staff gweinyddol: 5 (gan gynnwys rhai rhan-amser), 2 breswyl |
| **Nifer y dysgwyr** | 8 |
| **Darpariaeth** | Lleoliadau dydd a phreswyl |
| **Mathau o anghenion addysgol arbennig (AAA) y mae'r coleg yn darparu ar eu cyfer** | Problemau iechyd meddwl, anhwylderau ar y sbectrwm awtistig, anawsterau dysgu cymedrol, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | Ddim yn berthnasol |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 5 a 6 Chwefror 2013 |
| **Arolygiad diwethaf AGGCC** | Ddim yn berthnasol |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| **Arolygydd Cofnodol** | Gill Sims |